

Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Y Siwrnai i Ailagor eich Busnes Cymdeithasol



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cam 1: Cynllunio eich siwrnai	4
Cadw Pellter Corfforol/Diogel	4
Glanhau a Rhagofalon Diogelwch	8
Staff	9
Safleoedd	11
Asesiadau Risg	13
Cyfalaf Gweithio	15
Atodiad 1: Templedi Rhestrau Gwirio	19



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Y Siwrnai i Ailagor eich Busnes Cymdeithasol

Mae Covid-19 wedi trawsnewid amgylchedd busnesau, drwy'r orfodaeth i gau, y rheolau cadw pellter cymdeithasol a ffyrdd newydd o weithio. Mae rhai busnesau wedi gallu dal i fasnachu, tra mae eraill wedi gorfod addasu, neu gynnig llai o wasanaethau, neu hyd yn oed gau'n gyfan gwbl. Gall y syniad o ailagor, ac ystyried beth fydd y norm newydd i'ch busnes chi, fod yn un brawychus. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi datblygu'r canllaw hwn i'ch helpu i ddod o hyd i lwybr sy'n addas i'ch busnes chi. Bydd yn eich helpu chi fel busnes cymdeithasol i ystyried y prif oblygiadau sy'n gysylltiedig ag ailgychwyn eich busnes, ac yn eich cyfeirio at adnoddau a ffynonellau gwybodaeth allweddol. Bydd yn eich galluogi i gynllunio a pharatoi ar gyfer y siwrnai sydd o'ch blaen, a bod mewn sefyllfa i ailagor eich busnes cymdeithasol cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn caniatáu hynny.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i rannu'n 3 cham, â llyfr gwaith hawdd ei ddilyn ar gyfer pob cam:

Cam 1: Cynllunio eich siwrnai – yn ymdrin â'r pethau y mae'n hanfodol eu hystyried cyn y gallwch ailagor, er enghraifft y safle, staffio a gofynion diogelwch newydd. Yn cychwyn isod.



Cam 2: Penderfynu pa un yw'r llwybr gorau – yn ystyried defnyddio ffyrdd newydd o weithio, megis technoleg a thechnegau cyfathrebu a all helpu eich busnes, yn ogystal ag ystyriaethau ariannol.

Cam 3: Gwyrniadau o'ch Blaen – yn nodi rhai o'r rhwystrau y gallai eich busnes eu hwynebu, megis ailgyflwyno cyfyngiadau a symud oddi wrth y gwir ddiben. Eich helpu i ddatblygu strategaethau i fod yn fwy gwydn ac addasu.

Mae'r sefyllfa â Covid-19 yn newid o hyd. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddiweddarau wrth i'r llywodraeth gyhoeddi rheoliadau newydd a rhyddhau diweddariadau. Bwriedir i'r pecyn cymorth eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol. Mae llawer o'r dolenni yn y ddogfen hon yn arwain i wefannau allanol. Rydym yn eu rhannu er mwyn eich helpu, ond nid oes gennym unrhyw reolaeth dros gynnwys y gwefannau hyn na'u cywirdeb.



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

CAM 1: Cynllunio eich Siwrnai

Beth bynnag eich siwrnai, mae cynllunio a pharatoi yn hollbwysig. Mae Covid-19 wedi newid y ffordd y bydd pob un ohonom yn gweithio ac yn byw yn ystod y misoedd nesaf, ac ar ôl hynny. Mae'r cyfyngiadau a'r orfodaeth i gau wedi gwneud pethau'n anodd iawn, ond maent hefyd wedi arwain at lawer o gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol, adeiladu cydlyniant cymunedol cryfach a chanolbwyntio o'r newydd ar werthoedd.



Gall meddwl sut i ddechrau paratoi ar gyfer ailagor fod yn frawychus, felly mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllaw i gyflogwyr a gweithwyr, sy'n egluro sut i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel: <https://llyw.cymru/keep-wales-safe-work>. Mae Llywodraeth y DU wedi dechrau cyhoeddi canllawiau

dychwelyd i'r gwaith ar gyfer sectorau penodol: <https://www.gov.uk/guidance/working-safely-during-coronavirus-covid-19>. Rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau tebyg cyn bo hir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cyhoeddiadau diweddaraf ar gyfer eich sector.

Yn y cam hwn byddwn yn edrych ar rai o'r prif bethau i'w hystyried, ac yn eich helpu i weithio drwy bob pwnc a chreu cynlluniau a threfniadau newydd, er mwyn datblygu eich 'normal newydd'. Cofiwch ystyried yr effaith ar eich gwaith o ddydd i ddydd, eich gallu i gyflawni eich cynnyrch cymdeithasol a'r hyfywedd ariannol mwy hirdymor.

Cadw Pellter Cymdeithasol

Yn fyr iawn: Bydd angen i'ch busnes gydymffurfio â'r canllawiau cyfredol ar gadw pellter



corfforol/diogel. Mae hyn yn ofynnol o dan y gyfraith yng Nghymru. Mae angen i fusnesau gymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiad â'r rheolau cadw pellter o 2 fetr. Mae rhai eithriadau, er enghraifft gwasanaethau gofal, lle byddai gweithredu'r canllawiau'n amharu ar wasanaethau. Darllenwch y canllawiau diweddaraf (<https://llyw.cymru/cymryd-pob-cam-rhesymol-i-gynnal-pellter-corfforol-yn-y-gweithle>). Nid yw diffyg lle na diffyg arian yn esgus dros beidio â gweithredu'r canllawiau cadw pellter diogel.



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Bydd yn rhaid i chi feddwl sut y gallwch weithredu eich busnes, eich gwasanaethau a'ch safle yn ddiogel tra'n gweithredu'r rheol 2m. Bydd angen meddwl a chynllunio'n ofalus cyn rhoi hyn ar waith.

Pethau i'w hystyried:

- Cerddwch o gwmpas eich safle a mesurwch faint o le sydd gennych. Defnyddiwch dâp mesur a lluniadau i feddwl sut y gallech newid y cynllun.
- Cofiwch gynnwys mynedfeydd, coridorau, y toiledau a'r gegin hefyd, gan feddwl am ddiogelwch a chapasiti.
- Ystyriwch sut y bydd gweithredu'r rheol 2m yn effeithio ar nifer y staff, cwsmeriaid neu gleientiaid y gallwch eu cael ar y safle yr un pryd.
- Allwch chi newid y ffordd rydych yn gweithredu er mwyn lleihau nifer y bobl sydd ar eich safle ar adeg benodol?
- Allwch chi ymestyn eich oriau gwaith er mwyn gallu gwasanaethu mwy o bobl?
- Allwch chi drefnu bod apwyntiadau'n cychwyn ar adegau gwahanol, fel nad oes angen i gynifer o bobl fod ar y safle yr un pryd?
- Allwch chi gyflwyno patrymau shifft newydd i staff fel nad yw pawb yn cychwyn ac yn gorffen yr un pryd?
- Allwch chi gael rhyw fath o rota ar gyfer staff y mae angen iddynt fod yn yr adeilad, a chynnig cyfle i weithio gartref am ran o'r wythnos?
- Allwch chi weithredu system un ffordd o amgylch y safle?
- Oes angen i chi osod tâp i farcio ardaloedd, ac arddangos posteri? Ble dylen nhw gael eu gosod?
- Pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn cadw at y rheolau cadw pellter corfforol?

Camau Gweithredu:

- Eglurwch ar bapur sut rydych yn bwriadu addasu eich safle a'ch ffordd o weithio er mwyn cydymffurfio â'r rheolau cadw pellter corfforol.
- Datblygwch asesiad risg yn benodol er mwyn gweithredu'r canllawiau cadw pellter corfforol.
- Eglurwch wrth eich staff a'ch cwsmeriaid sut y byddwch yn gweithredu'r canllawiau cadw pellter corfforol. Gellid gwneud hyn drwy ddarparu mapiau o gynlluniau newydd, gosod



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

arwyddion a rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Ystyriwch sesiwn cynefino i egluro'r drefn, y rheolau a'r cynllun newydd i'r holl staff sy'n dychwelyd i'r gwaith.

- Eglurwch sut mae eich cynllun i weithredu'r canllawiau cadw pellter diogel yn allweddol er mwyn sicrhau cefnogaeth a chydymffurfiad staff, a sut y mae'n rhan hollbwysig o'r broses o ailennyn hyder staff a defnyddwyr.
- Cadwch i fyny ag unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth a goblygiadau'r newidiadau hyn. Bydd angen adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd.



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Rhestr Wirio Cadw Pellter Corfforol:	Cwblhawyd	Dyddiad	Gan
Mesur y safle / ardaloedd gweithio			
Canfod sut y gall staff a chwsmeriaid ddod i'r safle a symud o gwmpas yn ddiogel.			
Gwybod faint o bobl all fynd i mewn i'r adeilad ar y tro.			
Marcio llefydd ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.			
Arddangos posteri, arwyddion a llwybrau cerdded.			
Hyfforddi'r staff sut i weithredu'r gofynion cadw pellter corfforol.			

Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi cynhyrchu crynodeb o'r goblygiadau i fusnesau:

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/06/Safe-distancing-factsheet-Cym-v2.pdf>

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi cynhyrchu canllawiau manwl a thempledi y gellir eu defnyddio i gynhyrchu arwyddion a phosteri ar gyfer y gweithle: <https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-gynnal-pellter-corfforol-yn-y-gweithle-canllawiau-atodol>

<https://llyw.cymru/arwyddion-diogelwch-chadw-pellter-corfforol-i-gyflogwyr-coronafeirws>



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Glanhau a Rhagofalon Diogelwch

Yn fyr iawn: Yn unol â'r rheolau cadw pellter corfforol, bydd gan bron bob sefydliad ragor o gyfrifoldebau glanhau a sicrhau diogelwch, er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid ac atal lledaeniad Covid-19. Yn ychwanegol at hyn, bydd yn rhaid i rai sectorau gadw at ragofalon diogelwch llym, gan gynnwys defnyddio PPE (Cyfarpar Diogelu Personol) pan fyddant yn ailagor. Bydd angen i chi edrych rhag ofn eich bod chi'n dod i mewn i un o'r categorïau hyn. <https://www.hse.gov.uk/coronavirus/ppe-face-masks/index.htm>



Bydd angen i bob busnes ystyried sut i gadw ardaloedd gwaith a chyfarpar yn lân a darparu rhagor o orsafoedd a chyfleusterau glanhau.

Pethau i'w hystyried:

- A oes trefniadau glanhau ychwanegol neu benodol i'r sector y mae angen i chi eu dilyn?
- A fydd ar eich gweithwyr angen PPE i wneud eu gwaith yn ddiogel?
- A fydd ar eich cwsmeriaid angen gorchudd wyneb neu PPE er mwyn dod i'ch safle?
- A oes rhagofalon ychwanegol y bydd angen i chi eu dilyn, er enghraifft gosod sgriniau diogelu?
- Ble gallwch chi osod gorsafoedd glanhau ar gyfer staff a chwsmeriaid?
- Pa ardaloedd fydd angen cael eu glanhau, ac a oes gennych ardaloedd defnydd/risg uchel?
- Pryd fydd angen i chi lanhau a phwy fydd yn gyfrifol?
- Sut fyddwch chi'n cofnodi ble rydych wedi'i lanhau?
- Pa gynnyrch a chyfarpar fydd arnoch eu hangen, faint fyddan nhw'n ei gostio a ble gallwch chi eu prynu?

Camau Gweithredu:

- Datblygwch gynllun glanhau yn rhoi manylion am y trefniadau newydd.
- Prynwch y cynnyrch glanhau newydd ac unrhyw PPE sydd eu hangen.
- Hysbyswch y staff ynglŷn â'r trefniadau newydd a rhwch hyfforddiant iddynt os oes angen.



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Rhestr Wirio Glanhau a Rhagofalon Diogelwch	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Nodi'r prosesau glanhau priodol			
Gwybod pwy fydd yn gyfrifol am lanhau a sut y bydd yn cael ei gofnodi			
Prynu'r cynnyrch a'r cyfarpar sydd eu hangen			
Hysbysu a hyfforddi'r staff ynglŷn â'r gofynion glanhau newydd			

Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** wedi cyhoeddi canllawiau ar lanhau a defnyddio PPE:

<https://www.hse.gov.uk/coronavirus/cleaning/index.htm>

<https://www.hse.gov.uk/news/using-ppe-at-work-coronavirus.htm>

Staff

Yn fyr iawn: Mae ffyrlo a gweithio o bell wedi galluogi'r rhan fwyaf o sefydliadau i gadw eu lefelau staffio presennol. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, ac wrth i bobl ddechrau meddwl am ddychwelyd i'r gwaith, mae'n ofynnol i gyflogwyr asesu eu lefelau staffio, addasrwydd gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith a gofynion iechyd a diogelwch.



Pethau i'w hystyried:



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

- Pa lefelau staffio fydd arnoch eu hangen er mwyn gweithredu eich busnes am y 6-12 mis nesaf?
- Faint o staff all fod ar y safle yr un pryd?
- A yw gweithio gartref neu weithio o bell yn opsiwn i'ch staff neu i rai ohonynt?
- Os yw, a oes arnoch angen unrhyw gyfarpar neu newidiadau eraill?
- Allwch chi fforddio cynnal eich lefelau staffio â'r lefelau incwm disgwylidig?
- Os na allwch, pa rolau sydd mewn perygl a pha brosesau/amserlenni ddylech chi eu dilyn er mwyn atal gweithwyr o'u gwaith dros dro?
- A oes aelodau o'ch staff yn agored i niwed neu â risg uchel?
- A allech adleoli unrhyw aelodau o'r staff?
- A oes angen rhagor o staff neu sgiliau?
- A oes gofynion iechyd a diogelwch ychwanegol ar gyfer anghenion staffio a hyfforddi?
- A ydych wedi cysylltu â'r staff i drafod y dyfodol a ffyrdd newydd o weithio yn dilyn yr achosion o Covid-19?
- Sut rydych chi'n rheoli ac yn cefnogi staff sy'n gweithio gartref?

Camau Gweithredu:

- Nodi faint o staff y bydd arnoch eu hangen er mwyn ailagor a sut y byddwch yn eu rheoli.
- Siarad â'ch staff ynglŷn â sut y maen nhw'n teimlo ynglŷn â dychwelyd i'r gwaith.
- Nodi a oes gennych aelodau o'r staff sy'n agored i niwed, â risg uchel neu'n cael eu gwarchod ac sy'n methu â dychwelyd i'w gwaith, ac ystyried rolau a threfniadau eraill os oes modd.
- Llunio cynllun dychwelyd i'r gwaith.
- Rhannu'r cynllun gyda'ch staff.
- Ystyried gallu'r busnesau i dalu cyflogau.



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Rhestr Wirio Staff	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Adolygu lefelau staffio			
Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer dychwelyd i waith/safle			
Cynnal asesiad staffio er mwyn nodi aelodau o'r staff sydd â risg uchel			
Cyfathrebu â'r staff ynglŷn â dychwelyd i'r gwaith			

Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi cynhyrchu offeryn asesu risg er mwyn asesu addasrwydd gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith: <https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu>

Mae gan **Acas** amryw o adnoddau yn ymwneud â gweithio yn ystod y pandemig, gan gynnwys gweithio gartref: <https://www.acas.org.uk/coronavirus>

Canllaw ar y cyd ar ddychwelyd i'r gwaith ar ôl y cyfyngiadau symud:

https://www.som.org.uk/Returning_to_the_workplace_COVID-19_toolkit_FINAL.pdf

Mae **Mind** wedi cynhyrchu adnoddau rhagorol, gan gynnwys sut i helpu staff a rheoli llesiant yn ystod y cyfyngiadau symud a ffyrlo: <https://www.mind.org.uk/workplace/coronavirus-and-work/>

Safleoedd

Yn fyr iawn: Mae pandemig Covid-19 wedi newid y ffordd y mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n gweithredu yn gyfan gwbl. Hyd yn oed pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio gallai'r ffordd rydym yn defnyddio'n safleoedd fod yn wahanol iawn. Mae angen i sefydliadau fod yn rhagweithiol ac ystyried addasrwydd safleoedd a'u gallu i addasu ar gyfer yr anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol.



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Pethau i'w hystyried:

- A oes unrhyw swyddogaethau neu weithrediadau na fyddwch yn gallu eu gwneud mwyach oherwydd y rheolau cadw pellter cymdeithasol a'r amgylchedd gwahanol yn eich safle?
- A fydd angen i gwsmeriaid ymweld â'ch safle? Ynteu a allwch weithredu mewn ffordd wahanol?
- A oes arnoch angen mwy o le i weithredu'n effeithiol?
- A yw'n ymarferol i chi leoli eich staff gartref a dal i weithredu eich gwasanaeth? Neu a oes modd i ganran o'r staff weithio gartref?
- A oes gormod o le?
- A allwch chi is-osod unrhyw gapasiti ychwanegol i sefydliadau eraill?
- A oes gennych denantiaid? A fyddant yn dal i fod eisiau defnyddio'r safle neu a fyddant yn dal i allu talu rhent?
- A fyddwch yn dal i allu talu'r gorbenion?
- A oes angen i chi wneud addasiadau ffisegol i'r adeilad, ac os oes, faint fydd y gost, a phwy all wneud y gwaith?



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Camau Gweithredu:

- Cynnal adolygiad o'r safle a'i addaswydd ar gyfer y 12 mis nesaf.
- Ymgynghori â staff a chwsmeriaid i ofyn am adborth a chael gwybod beth yw eu barn ynglŷn â'r safle.
- Datblygu cynllun yn nodi'r addasiadau sy'n ofynnol, gan gynnwys y costau cysylltiedig ac amserlenni.
- Cyfrifo hyfywedd ariannol eich safle.
- Hysbysu'r staff a'r cwsmeriaid ynglŷn â newidiadau i'r safle, gan gynnwys diweddariad ynglŷn â'r diwrnodau a'r oriau.

Rhestr Wirio ar gyfer y Safle	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Asesu addaswydd ymarferol ac ariannol y safle ar gyfer y 12 mis nesaf.			
Rhestru'r addasiadau sydd eu hangen a'r costau cysylltiedig.			
Cysylltu a chyfathrebu â staff a chwsmeriaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r safle.			

Aseidiadau Risg

Yn fyr iawn: Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu eu gweithwyr ac eraill rhag niwed. Mae'r coronafeirws wedi ychwanegu haen arall i'r aseidiadau risg presennol. Erbyn hyn mae angen i gyflogwyr nodi pa weithgaredd neu sefyllfaoedd gwaith allai achosi i'r feirws gael ei drosglwyddo, meddwl pwy allai fod mewn perygl a phenderfynu pa mor debygol yw rhywun o ddod i gysylltiad â'r feirws. Mae angen iddynt hefyd gofnodi sut y byddant yn gweithredu os bydd achos o'r feirws yn eu gweithle. Rhaid i gyflogwyr sydd â mwy na 5 aelod o staff ysgrifennu eu hasesiadau risg. Er nad yw'r gyfraith yn nodi bod hyn yn ofynnol i'r rhai sydd â llai na 5 gweithiwr, mae'n ymarfer da.



<https://www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/index.htm>



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Mae gweithredoedd fel cadw pellter cymdeithasol, rheoli nifer y staff yn eich eiddo a darparu cyfleusterau golchi dwylo yn enghreifftiau o gamau ymarferol i'w cynnwys yn eich asesiad risg.

Pethau i'w hystyried:

- Nodi pa weithgareddau neu sefyllfaoedd allai achosi i'r feirws gael ei drosglwyddo yn eich lleoliad.
- Beth allwch chi ei wneud er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws yn eich sefydliad?
- Risgiau - PWY, BLE a PHRYD – a sut y gallwch chi leihau'r risgiau hynny.
- PWY allai fod â risg uchel? (Awgrym: Defnyddiwch offeryn asesu risg Llywodraeth Cymru)
- Felly, a yw'n bosibl i staff weithio gartref? Beth yw'r nifer lleiaf o bobl sydd eu hangen yn y gweithle? Allwch chi drefnu bod shifftiau'n cychwyn ar amseroedd gwahanol?
- BLE mae'r ardaloedd sydd fwyaf tebygol o achosi risg? h.y. ardaloedd y mae llawer o bobl yn eu cyffwrdd.
- Sut allwch chi wella'r trefniadau glanhau yn yr ardaloedd hynny?
- A fydd ar y staff angen PPE?
- *Sut allwch chi gynnal y rheolau cadw pellter corfforol?*
- *Byddwch wedi nodi llawer o risgiau yn yr adrannau blaenorol yn barod ac wedi dechrau cymryd camau i'w lleihau. Mae'r asesiad risg yn dod â nhw at ei gilydd mewn un lle.*

Camau Gweithredu:

- Cynnal Asesiad Risg Covid-19.
- Cofnodi sut y byddwch yn rheoli eich risgiau.
- Hysbysu eich staff, cwsmeriaid a rhanddeiliaid sut y byddwch yn rheoli eich risgiau. Egluro'n syml pa gamau rydych yn eu cymryd er mwyn eu diogelu ac atal y feirws rhag lledaenu, oherwydd bydd ganddyn nhw hefyd ran bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau diogelwch.

Rhestr Wirio Asesiadau Risg	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
-----------------------------	-----------	---------	-------



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Cynnal asesiad risg Covid-19.			
Ysgrifennu'r risgiau a sut y byddwch yn eu rheoli.			
Cyfathrebu â staff a chwsmeriaid ynglŷn â'ch cyfrifoldebau chi a nhw.			

Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae **ROSPA** yn egluro'n syml beth y dylech ei ystyried: <https://www.rosipa.com/lets-talk-about/2020/May/What-is-a-COVID-19-risk-assessment>

Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** wedi cynhyrchu canllaw defnyddiol iawn a thempledi: <https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/risk-assessment-template-and-examples.htm>

Bydd **Llywodraeth Cymru** yn rhyddhau canllawiau i sectorau penodol, felly darllenwch y cyhoeddiadau diweddaraf ar ei gwefan.

Cyfalaf Gweithio

Yn fyr iawn: Gallai ailagor arwain at gostau sylweddol nad ydych wedi'u rhagweld. Dwy enghraifft o gostau na fyddai'r busnes wedi'u hwynebu cyn Covid yw costau addasu'r safle er mwyn cydymffurfio â chanllawiau gweithio'n ddiogel a'r angen am ragor o gyflenwadau glanhau. Mae'n bwysig bod busnesau'n cyfrifo faint o arian o'r fath y bydd arnynt ei angen cyn y gallant ailagor er mwyn iddynt allu sicrhau bod ganddynt ddigon o gyfalaf gweithio. Mae llawer o fusnesau cymdeithasol wedi colli cyfran sylweddol o'u hincwm yn ystod y misoedd diwethaf, felly mae sicrhau bod digon o arian parod ar gael cyn ailagor yn ystyriaeth bwysig iawn.



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Pethau i'w hystyried:

- Beth yw eich sefyllfa ariannol ar hyn o bryd? Faint o arian sydd gennych yn y banc neu faint o arian sydd ar gael i chi? Oes gennych unrhyw arian wrth gefn neu gyllid y gallech ei ddefnyddio pe bai angen?
- Faint fydd hi'n ei gostio i chi ailagor eich busnes?
- A oes gennych chi gostau ychwanegol neu gostau uwch i'w hystyried mewn rhagamcanion llif arian?
- A fydd hi'n costio mwy i chi ddarparu eich cynnyrch neu wasanaeth 'nawr?
- A oes angen i chi ailstocio eich cynnyrch neu rai ohonynt? Neu dalu am staff ychwanegol?
- A yw costau eich cyflenwadau hanfodol wedi cynyddu?
- Faint o incwm rydych chi'n disgwyl ei gael yn y 6-12 mis nesaf?
- Faint fydd eich costau yn y 6-12 mis nesaf?
- A fyddwch yn adennill eich costau, yn gwneud elw ynteu'n gwneud colled?
- A oes gennych chi ddigon o arian parod ar gyfer hynny?
- Allwch chi gael gafael ar gyllid tymor byr neu grantiau i'ch helpu?



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Camau Gweithredu:

- Cyfrifo faint fydd hi'n ei gostio i chi ddarparu eich cynnyrch neu wasanaeth dan y ffordd newydd o weithio.
- Cyfrifo faint o incwm rydych yn ei ddisgwyl yn y 6-12 mis nesaf.
- Cyfrifo faint fydd eich costau yn y 6-12 mis nesaf dan eich model busnes normal newydd.
- Canfod faint o arian sydd ar gael i chi yn y banc, faint o arian sy'n ddyledus i chi a faint sydd gennych mewn cronfeydd wrth gefn.
- Adolygu faint o arian y bydd arnoch ei angen i dalu eich costau gweithredu ac unrhyw ddiffyg ar gyfer y cyfnod, h.y. y cyfalaf gweithio sy'n ofynnol.
- Ymchwilio i ffynonellau incwm eraill os oes angen.

Rhestr Wirio Cyfalaf Gweithio	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Cyfrifo costau ailagor.			
Amcangyfrif eich lefelau incwm ar gyfer y 6-12 mis nesaf o dan eich model busnes normal newydd.			
Cynhyrchu datganiadau llif arian wedi'u diweddarau.			
Ymchwilio a sicrhau rhagor o gyfalaf gweithio os oes angen.			

Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae gan **Busnes Cymru** offer da i'ch helpu i ddeall costau a chyfrifo llif arian

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/cyllid>

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian>

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi cynhyrchu canllawiau ar ffynonellau cyllid

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/05/Finance-factsheet-Welsh-v4.pdf>



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Mae **Good Finance** hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a dolenni ar gyfer darpar fuddsoddwyr cymdeithasol <https://www.goodfinance.org.uk/latest/post/coronavirus-post/funding-and-investment-guidance>

Rydych gam yn nes at ailagor. Mae'r cam cyntaf, y gwaith paratoi a chynllunio, wedi'i gwblhau. Ewch ymlaen i'r llyfrau gwaith nesaf:

Cam 2: Penderfynu pa un yw'r Llwybr Gorau

Cam 3: Gwyriadau o'ch Blaen

Angen mwy o help? Siaradwch ag un o'n cynghorwyr busnes ar 0300 111 5050 neu ewch i'n gwefan i weld rhagor o wybodaeth, adnoddau a chanllawiau:

<https://cymru.coop/covid-19-useful-links-and-resources/>

<https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy>



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Atodiad 1: Templedi Rhestrau Gwirio

Cadw Pellter Corfforol:	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Mesur y safle / ardaloedd gweithio			
Canfod sut y gall staff a chwsmeriaid ddod i'r safle a symud o gwmpas yn ddiogel.			
Gwybod faint o bobl all fynd i mewn i'r adeilad ar y tro.			
Marcio llefydd ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.			
Arddangos posteri, arwyddion a llwybrau cerdded.			
Hyfforddi'r staff sut i weithredu'r gofynion cadw pellter corfforol.			
Glanhau a Rhagofalon Diogelwch:	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Nodi'r prosesau glanhau priodol			
Gwybod pwy fydd yn gyfrifol am lanhau a sut y bydd yn cael ei gofnodi			
Prynu'r cynnyrch a'r cyfarpar sydd eu hangen			
Hysbysu a hyfforddi'r staff ynglŷn â'r gofynion glanhau newydd			



Social Business Wales

/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Staff:	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Adolygu lefelau staffio			
Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer dychwelyd i waith/safle			
Cynnal asesiad staffio er mwyn nodi aelodau o'r staff sydd â risg uchel			
Cyfathrebu â'r staff ynglŷn â dychwelyd i'r gwaith			
Safle:	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Asesu addasrwydd ymarferol ac ariannol y safle ar gyfer y 12 mis nesaf.			
Rhestru'r addasiadau sydd eu hangen a'r costau cysylltiedig.			
Cysylltu a chyfathrebu â staff a chwsmeriaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r safle.			
Asesiadau Risg	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Cynnal asesiad risg Covid-19.			
Ysgrifennu'r risgiau a sut y byddwch yn eu rheoli.			
Cyfathrebu â staff a chwsmeriaid ynglŷn â'ch cyfrifoldebau chi a nhw.			



Social Business Wales

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)

Cyfalaf Gweithio	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Cyfrifo costau ailagor.			
Amcangyfrif eich lefelau incwm ar gyfer y 6-12 mis nesaf o dan eich model busnes normal newydd.			
Cynhyrchu datganiadau llif arian wedi'u diweddarau.			
Ymchwilio a sicrhau rhagor o gyfalaf gweithio os oes angen.			

